CYTUNDEB SAFONOL DRAFFT – Caiff y testun o fewn y cromfachau [ ] ei ychwanegu neu ei ddiwygio fesul achos unigol

(1) **Dŵr Cymru Cyfyngedig**

**- a -**

(2)

---

Cytundeb Cymorth Credyd Cymwys Amgen
a wnaed o dan Atodiad 3 o'r Contract Cyfanwerthu

---

**GWNEIR Y CYTUNDEB HWN** ar

**RHWNG**

(1) **Dŵr Cymru Cyfyngedig** sy'n gwmni a gorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru dan rif cwmni 2366777, y mae ei swyddfa gofrestredig yn Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT ('y Cyfanwerthwr Contractio'); a(c)

(2) [Enw'r adwerthwr] sy'n gwmni a gorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru dan rif y cwmni [ ] y mae ei swyddfa gofrestredig yn [cyfeiriad cofrestredig yr adwerthwr] ('yr Adwerthwr Contractio')

**CEFNDIR:**

(A) Cytundeb ar gyfer Cymorth Credyd Cymwys Amgen yw hwn a wnaed yn unol ag Atodlen 3 o Delerau Busnes y Contract Cyfanwerthu rhwng yr Adwerthwr Contractio a'r Cyfanwerthwr Contractio dyddiedig [nodwch y dyddiad] a wnaed ei hun yn unol ag Adran 66D o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (y "Contract"), a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Contract.

(B) O dan y Contract, mae gofyn i'r Adwerthwr Contractio ddarparu a chynnal Cymorth Credyd Cymwys misol a/neu (gyda chytundeb y Cyfanwerthwr Contractio) Cymorth Credyd Cymwys Amgen ar gyfer Swm y Cymorth Credyd.

(C) Mae pob Parti wedi cytuno i ymgymryd â'r cytundeb Cymorth Credyd Cymwys Amgen yma (y "Cytundeb") er mwyn caniatáu i'r Adwerthwr Contractio leihau swm y Cymorth Credyd Cymwys y mae'n ei ddarparu ac yn ei gynnal o dan amgylchiadau penodol.

**CYTUNIR** fel a ganlyn

1. Mae i'r holl dermau a ddiffinnir yn y Cytundeb hwn yr un ystyr â'u hystyr yn y Contract, oni nodir fel arall.

2. Bydd y Cytundeb hwn yn dechrau ar y dyddiad hwn ac yn parhau tan [nodwch y dyddiad].

3. Er gwaethaf unrhyw beth cyferbyniol a nodir yn y Contract, o ddyddiad yr Hysbysiad Cymorth Credyd cyntaf y mae'r Cyfanwerthwr Contractio'n ei gyflwyno i'r Adwerthwr Contractio yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn, bydd gofyn i'r Adwerthwr Contractio ddarparu Cymorth Credyd Cymwys bob mis ar sail y "Gofyniad Cymorth Credyd â Disgownt" yn unig.

4. Bydd y Cyfanwerthwr Contractio'n cyfrifo'r Cymorth Credyd â Disgownt trwy dynnu [ ] o'r swm a bennir yn adroddiad P1 y Setliad Cyfunol sy'n cael ei gyflwyno'n fisol gan weithredwr y farchnad i'r Cyfanwerthwr Contractio a'r Adwerthwr Contractio, neu unrhyw swm llai, fel nad yw'r Gofyniad Cymorth Credyd â Disgownt ar gyfer y mis hwnnw byth yn llai na £0 (sero) (a gelwir y swm hwnnw yn 'Disgownt').

5. Yn amodol ar gymal 4, os bydd y Prif Daliadau sy'n ddyledus gan yr Adwerthwr Contractio mewn unrhyw fis yn llai na'r Disgownt, bydd yr Adwerthwr Contractio'n trin y Gofyniad Cymorth Credyd yna fel sero.

6. Ni fydd dim sydd yn y cytundeb hwn yn effeithio ar:

   (a) unrhyw Lwfans Credyd Anwarantedig y mae gan yr Adwerthwr Contractio'r hawl iddo; neu

   (b) unrhyw ddewis sydd gan yr Adwerthwr Contractio o dan y Contract o ran sut mae'n bodloni'r Gofyniad o ran Cymorth Credyd.

7. Bydd yr Adwerthwr Contractio'n dangos y Disgownt fel rhes ar wahân yn yr Hysbysiad Cymorth Credyd perthnasol.

8. Os, o ganlyniad i'r Cytundeb hwn, mae Swm Cymorth Credyd yr Adwerthwr Contractio ar gyfer unrhyw fis yn disgyn islaw swm y Disgownt, yna:

(a) mae'r Adwerthwr Contractio'n cytuno y gall yr Adwerthwr Contractio dynnu unrhyw gymorth credyd cyfredol yn ôl ar unwaith; a

(b) lle gofynnir am hynny, bydd y Cyfanwerthwr Contractio'n dychwelyd unrhyw arian parod a anfonwyd yn rhan o unrhyw gytundeb adneuo arian parod rhwng y partïon cyn pen 7 diwrnod gwaith ar ôl llofnodi'r Cytundeb hwn.

9. Daw'r Cytundeb hwn i ben yn awtomatig pan ddaw'r Contract i ben am unrhyw reswm.

10. Gall y Cytundeb hwn gael ei derfynu:

(a) gan yr Adwerthwr Contractio trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cyfanwerthwr Contractio; neu

(b) gan yr Adwerthwr Contractio trwy roi 30 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i'r Adwerthwr Contractio; neu

(c) gan yr Adwerthwr Contractio ar unwaith os yw'r Adwerthwr Contractio'n methu â gwneud taliad o dan y Contract erbyn ei ddyddiad dyledus, neu os yw'n torri amodau'r Contract fel arall; neu

(d) os oes gan yr Adwerthwr Contractio sail resymol i gredu y bydd yr Adwerthwr Contractio'n methu â chyflawni ei rwymedigaethau talu o dan y Contract; neu

(e) [os yw'r Adwerthwr Contractio'n colli un o'r ddau statws credyd buddsoddi oedd ganddo adeg cychwyn y Cytundeb hwn.]

11. Pan ddaw'r cytundeb i ben neu os caiff ei derfynu'n gynt, daw'r trefniadau a bennir ynddo i ben a chaiff darpariaeth cymorth credyd yr Adwerthwr Contractio ei lywodraethu'n unswydd gan y Contract, ac mae'r partïon o dan sylw'n cytuno i gydweithio â'i gilydd i'r fath raddau y bo angen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Contract.

12. Mae'r Adwerthwr Contractio'n cydnabod ac yn cytuno:

(a) [y bydd yn hysbysu'r Cyfanwerthwr Contractio os, ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y cytundeb hwn, yw'n colli'r un o'r ddau statws credyd buddsoddi oedd ganddo adeg cychwyn y Cytundeb hwn.]

(b) ei fod yn cychwyn y Cytundeb hwn fel ffordd o gaffael Cymorth Credyd Cymwys Amgen o fewn yr ystyr a bennir yn Atodlen 3 o'r Contract; ac

(c) er mwyn cydymffurfio ag Atodlen 3, y cyhoeddir y Cytundeb hwn yn llawn ar wefan y Cyfanwerthwr Contractio.

13. Ni fydd grym i unrhyw amrywiad i'r Cytundeb hwn oni bai ei fod yn ysgrifenedig ac wedi ei lofnodi gan neu ar ran pob parti iddo.

14. Nid yw'r partïon yn bwriadu i unrhyw drydydd parti fod â'r hawl i orfodi unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 neu fel arall.

15. Os bydd unrhyw anghysondeb rhwng y Cytundeb hwn a'r Contract, telerau'r Contract fydd drechaf.

16. Nid yw'r partïon yn bwriadu i unrhyw drydydd parti fod â'r hawl i orfodi unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 neu fel arall.

17. Caiff unrhyw hysbysiadau o dan y Cytundeb hwn eu cyflwyno yn unol â darpariaethau'r Contract.

18. Y Cytundeb hwn yw'r cytundeb cyfan rhwng y partïon, ac mae'n disodli unrhyw gytundebau, sylwadau, a dealltwriaeth flaenorol oedd yn bodoli rhyngddynt o ran ei destun, boed yn ysgrifenedig neu'n llafar.

19. Mae'r Cytundeb hwn ac unrhyw rwymedigaethau anghontractiol sy'n codi mewn cysylltiad ag ef (ac oni nodir fel arall, unrhyw ddogfennau a gychwynnir mewn perthynas ag ef) yn cael eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr fel y maent yn gweithredu yng Nghymru. Heb gyfaddawdu hawliau'r Awdurdod, mae gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth lwyr i benderfynu ar unrhyw anghydfod sy'n codi mewn perthynas â'r Cytundeb hwn (ac oni ddarperir fel arall, unrhyw ddogfen a gychwynnir mewn perthynas ag ef), gan gynnwys anghydfodau sy'n ymwneud ag unrhyw rwymedigaethau anghontractiol.

DRAFT

LLOFNODWYD gan ......................................................

sydd ag awdurdod i lofnodi ar ran
**Dŵr Cymru Cyfyngedig**

LLOFNODWYD
gan……………………………………………
sydd ag awdurdod i lofnodi ar ran
[yr Adwerthwr]

DRAFT